Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Michael Pitman

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2019

Annwyl Cynghorydd,

**PANEL APELIADAU ARBENNIG**

Cynhelir Cyfarfod Special Panel Apeliadau yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 24 Gorffennaf 2019** am **16:00,** neu'n union ar ôl cyfarfod y Cyngor, pa un bynnag sydd hwyraf.

**AGENDA**

1. Gwahardd y Cyhoedd
   Nid oedd y cofnodion sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

   Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

2. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 22
   I gymeradwyo cofnodion y Panel Apeliadau o'r dyddiadau canlynol:

   3 Awst 2017
   5 Rhagfyr 2017

Yn ddiffuant
**K Watson**
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| N Clarke | JR McCarthy | JE Williams |
| DRW Lewis | NA Burnett | |

COFNODION CYFARFOD Y PANEL APELIADAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL PWYLLGORA 1 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 3 AWST 2017 AM 10:00

Presennol

Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| DRW Lewis | JE Williams |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Katia Daw | Cyfreithiwr |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Jason Jenkins | Swyddog Ymchwilio |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Dennise Thomas | Uwch Gynghorydd Cysylltiadau Cyflogeion |
| Michelle Willmer | Uwch Gynghorydd Cysylltiadau Cyflogeion |

7. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

8. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor qyn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y PANEL APELAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGORA 2/3 - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 5 RHAGFYR 2017 AM 11:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

N Clarke NA Burnett

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Tony Godsall | Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth |
| Keith Power | Swyddog Rheoli Traffig |
| Jane Dessent | Cyfreithiwr |

13. DATGANIADAU BUDDIANT

Dim.

14. CYFLWYNO SYSTEM UNFFORDD AR CRESCENT ROAD, SARN, I GYD-FYND Â CHYFLWYNO CYFFORDD Â SIGNALAU AR HEOL GANOL, HEOL CWRDY, HEOL CANOLA A BRYNCOCH ROAD, SARN

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i bawb a oedd yn bresennol a rhoddwyd y cyflwyniadau angenrheidiol.

Wedyn, er lles y rhai a oedd yn bresennol, darllenodd y weithdrefn a gâi ei dilyn yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw, a fyddai'n dechrau drwy ofyn i'r swyddogion priffyrdd gyflwyno'u hadroddiad.

Eglurodd y Swyddog Cyfreithiol un pwynt, sef y byddai'r Panel ar y diwrnod hwnnw yn ystyried yr achos o blaid yr awdurdod priffyrdd a'r achos o blaid y gwrthwynebydd, ac wedyn yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater a oedd ger eu bron, a hynny ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth a oedd ger eu bron yn yr adroddiad, ac unrhyw beth arall a gâi ei roi ar lafar yn y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth bwrpas yr adroddiad, sef ceisio datrys y gwrthwynebiad ffurfiol a ddaethai i law ynghylch y cynnig i gyflwyno system draffig unffordd ar Crescent Road, Sarn.

O ran gwybodaeth gefndir, dywedodd wrth y rhai a oedd yn bresennol fod hysbysiad cyhoeddus statudol wedi'i gyhoeddi ar 25 Mehefin 2015 mewn perthynas â'r bwriad i gau ysgol gynradd bresennol Brynmenyn a sefydlu ysgol newydd i wasanaethu ei dalgylch traddodiadol. Roedd y cynnig hwn wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet.

Fel rhan o'r cynigion uchod, cafodd caniatâd cynllunio ei roi wedyn ar 30 Medi 2016, yn amodol ar nifer o amodau a gyplyswyd â'r caniatâd hwnnw.

Amlinellodd paragraff 3.5 o'r adroddiad Amod 19 i'r caniatâd uchod, a oedd fel a ganlyn:-

"No development shall commence until details of the extended access road into the school site from the junction with the access to Coleg Cymunedol y Dderwen and

improvements to the Heol yr Ysgol/Bryn Road and Heol Cwrdy/Heol Canola junctions have been submitted to and approved in writing by the Local Planning Authority. The development shall be constructed in accordance with the approved details, and the school shall not be brought into beneficial occupation, until the improvement works have been implemented.

Reason: In the interests of the safety and free flow of traffic."

Dywedodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth mai diben yr amod hwn oedd gwella'r cyffyrdd strategol i'r ysgol, er mwyn gwella llif rhydd traffig a diogelwch i gerddwyr wrth y cyffyrdd hynny. Ychwanegodd mai'r gyffordd a oedd yn berthnasol i gael ei hystyried gan y Panel Apelau oedd yr un wedi'i lleoli ar Heol Cwrdy/Heol Canola, Sarn.

Dywedodd wedyn fod amryw o gyfluniadau wedi'u hystyried er mwyn cydymffurfio â'r amod uchod yn y caniatâd cynllunio, ac y byddai'r cynllun terfynol arfaethedig wrth gyffordd Heol Cwrdy, Heol Canola, Heol Ganol a Heol Bryn-coch yn cynnwys signalau traffig i reoli'r traffig, ynghyd â chyfleusterau croesfan i gerddwyr. Er mwyn sicrhau bod y signalau traffig yn gweithio'n ddiogel, cynigiwyd rhoi system unffordd ar waith ym mhen dwyreiniol Crescent Road, o'i chyffordd â Heol Ganol hyd at ei chyffordd â Heol Ynysawdre, o'r de-ddwyrain i'r gorllewin (gweler Atodiad A1 i'r adroddiad).

Dywedodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth nad oedd yn ofynnol ymgynghori ynghylch gosod signalau traffig yn y fan uchod, gan fod Deddf Priffyrdd 1980 yn caniatáu i awdurdodau priffyrdd ymgymryd â gwaith ar y rhwydwaith priffyrdd heb fod angen ymgynghori'n ffurfiol. Serch hynny, roedd hi'n ofynnol ymgynghori er mwyn rhoi'r system unffordd arfaethedig ar waith yn Crescent Road, a hynny o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Aeth yn ei flaen drwy ddweud wrth yr Aelodau fod llythyr wedi'i anfon, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, at yr ymgyngoreion statudol ym mis Mehefin 2017 (Atodiad A i'r adroddiad) yn amlinellu'r cynnig i gyflwyno system draffig unffordd ar Crescent Road. Ar yr un pryd, anfonwyd y llythyr at amrywiaeth eang o unigolion/sefydliadau ychwanegol, gan gynnwys perchnogion yr holl eiddo a oedd â'u tu blaen ar Crescent Road, ac eiddo yr oedd yn debygol y byddai'r cynllun yn effeithio arnyn nhw yn Heol Ganol, Heol Ynysawdre, Heol Cwrdy a Bryncoch Road. Roedd hyn yn ymgais i ysgogi gwrthwynebiadau/sylwadau ar y cynnig ar adeg pan fyddai'n bosibl, drwy gyfrwng trafodaeth benodol, gynllunio unrhyw wrthwynebiadau posibl allan yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Gofynnodd y llythyr eglurhaol i unrhyw sylwadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno o fewn 21 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr, sef 15 Mehefin 2017. Gan hynny, roedd angen i gyflwyniadau ddod i law erbyn 6 Gorffennaf 2017.

Roedd Atodiad A1 i'r adroddiad yn rhoi manylion cynllun yn dangos lleoliad y cynnig, yn ogystal â'r eiddo yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch y system unffordd mewn melyn, er na chafodd y cynllun hwn ei anfon fel rhan o'r llythyr ymgynghori y cyfeirid ato ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth nad oedd sylwadau wedi dod i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad cychwynnol ar y cynllun arfaethedig.

Esboniodd ymhellach fod llythyrau ymgynghori a'r hysbysiad wedi'u hanfon, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, at yr ymgyngoreion statudol a'r preswylwyr hynny yr effeithid arnynt yn Heol Ganol, Heol Ynysawdre, Heol Cwrdy a Bryncoch Road ym mis Awst 2017. Yn ychwanegol, cawsai hysbysiadau'r cynnig eu harddangos mewn mannau allweddol ar y safle (gweler Atodiadau B ac C i'r adroddiad). Dywedodd fod copi o'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad C1 i'r adroddiad.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynllun, daethai 3 o sylwadau i law fel a ganlyn:-

- Llythyr o gefnogaeth gan Heddlu'r De (Atodiad D i'r adroddiad);
- Dau lythyr yn gwrthwynebu oddi wrth breswylwyr yr effeithid arnyn nhw (Gwrthwynebydd Rhif 1 - Atodiad E a Gwrthwynebydd Rhif 2 – Atodiad F i'r adroddiad)

Wedyn roedd paragraff 4.8 yn yr adroddiad yn amlinellu'r pwyntiau gwrthwynebiad a fynegwyd gan Wrthwynebydd Rhif 2, a'r ymatebion i'r rhain gan yr Adran Briffyrdd, ac ymhelaethwyd ar y rhain gan y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth yn y cyfarfod er lles yr Aelodau.

Dywedodd yr adran nesaf yn yr adroddiad fod swyddogion o'r Adran Briffyrdd wedi cyfarfod wedyn â'r ddau wrthwynebydd, er mwyn dod o hyd i ateb i'r gwrthwynebiadau a wnaed ac yn sgil y cyfarfod fod Gwrthwynebydd Rhif 1 wedi tynnu ei wrthwynebiad i'r cynnig yn ôl pan gytunwyd y câi'r palmentydd gostyngedig o flaen dreif y gwrthwynebydd eu hymestyn (gweler Atodiad E i'r adroddiad).

Er hynny, ailymwelodd un o Swyddogion yr Adran Briffyrdd â Gwrthwynebydd Rhif 2, ac yn sgil hyn fe anfonodd lythyr arall o wrthwynebiad i'r cynigion dyddiedig 4 Hydref 2017 (gweler Atodiad J i'r adroddiad) ac roedd paragraff 4.12 o'r adroddiad yn amlinellu'r pwyntiau a wnaed mewn perthynas â'r gwrthwynebiad hwn, ynghyd ag ymatebion yr Adran Briffyrdd iddyn nhw.

Wedyn cafodd opsiynau posibl eraill eu hystyried gan yr Adran Briffyrdd o ganlyniad i'r llythyr dyddiedig 4 Hydref 2017, ond yn y pen draw daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig gwreiddiol oedd y ffordd fwyaf effeithiol i wella diogelwch cerddwyr ar bob un o bedair cangen y gyffordd yn y fan uchod, yn enwedig o ran plant yn teithio i'r ysgol ynghyd â'r materion gwella diogelwch ffyrdd a oedd yn cael eu gweld ar y pryd wrth y cyffyrdd yr effeithid arnynt. Gan hynny, penderfynwyd nad oedd unrhyw le i greu cyfaddawd amgen â Gwrthwynebydd Rhif 2, ac felly byddai angen cyfeirio'r mater at y Panel Apelau i gael ei benderfynu.

Wedyn cafwyd rhagor o ohebiaeth gan Wrthwynebydd Rhif 2 (gweler Atodiad L i'r adroddiad), ond cadarnhaodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth nad oedd hyn yn briodol i'r Panel ei ystyried, gan ei bod yn ymwneud â gosod signalau traffig/gwaith dros dro/materion rheoli traffig dros dro, fel y nodwyd ym mharagraff 4.15.1 a 4.15.2 o'r adroddiad.

Parhaodd y ddeialog rhwng Gwrthwynebydd Rhif 2 a'r Adran Briffyrdd, gyda golwg ar ledaenu'r materion a godwyd ganddi, er mwyn egluro'r materion hynny a oedd yn dod o dan gylch gwaith y Panel Apelau, o'u cyferbynnu â materion nad oedden nhw'n dod odano.

Dymunai'r Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth ddweud wrth yr Aelodau nad oedd dim gwrthwynebiadau eraill i gynigion y Cyngor wedi dod i law, gan gynnwys gan y gwasanaethau brys, cwmnïau bysiau, grwpiau pobl ag anabledd, ac yn fwy arbennig, preswylwyr eraill Crescent Road.

I grynhoi felly, cadarnhaodd i'r Panel fod y swyddogion yn derbyn yn llawn fod gan y gwrthwynebydd hawl i wrthwynebu'r cynnig i gyflwyno system draffig unffordd ar Crescent Road, a bod angen i bryderon y gwrthwynebydd gael eu cyflwyno i'r Panel, gan nad oedd Gwrthwynebydd Rhif 2 wedi tynnu ei gwrthwynebiadau yn ôl er bod cryn drafod wedi bod ynghylch ei phryderon gyda'r Swyddogion Priffyrdd.

Ailadroddodd fod yr anawsterau wrth y gyffordd o dan sylw hefyd wedi bod yn cael eu hystyried ers nifer o flynyddoedd, pan oedd amrywiol opsiynau wedi'u cynnig.

Ar ôl i ystyriaeth gael ei rhoi i bob opsiwn a archwiliwyd, teimlid mai'r gwelliant mwyaf priodol wrth y gyffordd y cyfeirid ati fyddai darparu set o signalau traffig. Teimlid y byddai hynny'n cynyddu diogelwch plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Teimlid hefyd fod angen gwell mesurau diogelwch ffyrdd wrth y cyffyrdd yn y fan hon, ac i fynd i'r afael â hyn, cytunwyd mai cyffordd 4 cangen â signalau oedd yr opsiwn a ffefrid ar gyfer gwella llif y traffig i'r eithaf yn yr ardal hon ei hun a'r ardaloedd cyfagos.

Gofynnodd Aelod a oedd dadansoddiad llif traffig pen desg wedi'i wneud. Dywedodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth fod dadansoddiad wedi'i wneud ar sail yr asesiad traffig a gwblhawyd fel rhan o raglen yr ysgol. Gofynnodd yr Aelod a oedd yr asesiad wedi'i seilio ar y defnydd presennol a'r defnydd yn y dyfodol, ill dau, o gofio y byddai'r ffyrdd yn brysurach yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth fod hynny'n wir, ar gyfer y presennol ac am gyfnod o hyd at 10 mlynedd yn y dyfodol.

Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd Mrs. L. Randall (Gwrthwynebydd Rhif 2) i amlinellu ei sylwadau a'i gwrthwynebiadau i gynigion yr Awdurdod Priffyrdd ar Crescent Road er lles y Panel.

Cadarnhaodd Mrs Randall ei bod wedi newid ei barn ar y cynigion i raddau, yn yr ystyr ei bod o'r farn bod cyffordd 5 cangen â signalau yn ddewis gwell ar Crescent Road, er mwyn gwella llif y traffig yn y fan hon ac o'i hamgylch. Cadarnhaodd hefyd fod rhan fawr o'r ffordd hon yn cael ei rhwystro i raddau gan yrwyr cerbydau, yn yr ystyr bod gan nifer o'r eiddo yn y stryd hon wrychoedd uchel ar ffiniau eu heiddo. Ychwanegodd fod pobl hŷn hefyd yn byw yn y fan hon, a bod rhai o'r mesurau yr oedd hi'n eu cynnig yn ymdrin â materion diogelwch nid yn unig i yrwyr cerbydau yn teithio drwy'r stryd hon, ond hefyd i gerddwyr/preswylwyr a oedd yn cerdded yn y fan hon. Ychwanegodd fod ei chwaer yn anffodus wedi marw o ganlyniad i ddamwain traffig ffordd ac felly fod diogelwch i gerbydau/cerddwyr o'r pwys pennaf iddi. Teimlai hefyd y byddai system diogelwch ffyrdd barhaol ar waith yn well o lawer nag unrhyw ateb dros dro, a bod y system 4 cangen yr oedd yr Awdurdod Priffyrdd yn ei chynnig yn cyfaddawdu materion diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd. Er hynny, pe ceid cytundeb ffurfiol i ddarparu croesfan ffurfiol yn Crescent Road er lles diogelwch cerddwyr, yna er gwaethaf y pryderon a'r amheuon eraill roedd hi wedi'u codi o'r blaen, fe fyddai'n cytuno â'r holl waith arfaethedig arall a oedd i gael ei wneud.

Gofynnodd Aelod am eglurhad a fyddai'r system unffordd arfaethedig o Crescent Road yn dod oddi ar Heol Ganol ac yn parhau ar hyd y stryd honno. Os felly, roedd yn teimlo pam felly na allai croesfan i gerddwyr gael ei darparu yn y fan hon. Pe câi hyn ei ddarparu, byddai hyn yn helpu wedyn i leihau cyflymder y traffig a fyddai'n mynd ar hyd stryd unffordd, ac yn atal gyrwyr cerbydau rhag ceisio 'neidio' signalau goleuadau traffig. Hyd y gallai hithau weld, byddai'r opsiwn a ffefrid yn arwain at greu mwy o draffig o 4 cyfeiriad gwahanol i mewn i system unffordd.

Dywedodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth y byddai'r system 4 cangen yr oedd yr Adran Briffyrdd yn ei ffafrio yn helpu cerbydau yn teithio drwy'r cyffyrdd yn y cyffiniau. Ychwanegodd y byddai'r cynnig a awgrymwyd uchod gan un o aelodau'r Panel yn golygu bod angen cyffordd 5 cangen â signalau. Serch hynny, er mwyn caniatáu i'r traffig lifo'n well a gwella diogelwch i gerddwyr, cyffordd ac iddi 4 cangen oedd yr opsiwn a ffefrid. Teimlai y dylai'r Aelodau nodi hefyd mai cymharol fach oedd llif y traffig yn Crescent Road, ac roedd hynny'n rheswm arall pam roedd y system 4 cangen wedi'i ffafrio.

Cadarnhaodd Mrs Randall fod nifer y cerddwyr wedi cynyddu yn yr ardal gyffredinol oedd yn cael ei thrafod, gan gynnwys Crescent Road, ac nad oedd am i ddamwain ddigwydd cyn i unrhyw gynigion y byddai'r Panel yn cytuno arnyn nhw yn y fan hon gael eu rhoi ar waith yn briodol, ac wedyn eu hailystyried ar ôl cyfnod prawf cytûn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth y byddai croesfan i gerddwyr o dan reolaeth yn gwella diogelwch i gerddwyr a thrigolion a fyddai'n croesi'n ddiogel ar Crescent Road ond y byddai angen system unffordd hefyd ar Crescent Road.

Ychwanegodd y Swyddog Rheoli Traffig y gallai cyfleuster croesi gael ei ddarparu yn Crescent Road ond mai cyfleuster â botwm i'w bwyso gan y cerddwyr fyddai hynny heb oleuadau traffig. Serch hynny, fe fyddai angen system unffordd ar Crescent Road er mwyn gwella llif y traffig a diogelwch cerddwyr yn y gymdogaeth.

Cododd Aelod y pryder hefyd ynghylch diogelwch cerddwyr pan fyddai cerbydau'n troi i mewn i Crescent Road, gan ychwanegu y byddai cyflymder cerbydau'n gynt wedyn na phe bai'r system unffordd yn mynd i'r cyfeiriad arall, gan ei gwneud yn beryglus i gerddwyr groesi heb groesfan o dan reolaeth signalau. Serch hynny, roedd yn derbyn y byddai cyffordd 4 cangen o dan reolaeth yn cynyddu llif y traffig drwy'r gyffordd hon, ond y byddai cyfleuster 5 cangen gyda chyfnod i gerddwyr ar draws Crescent Road yn gwella diogelwch cerddwyr.

Ychwanegodd y Swyddog Rheoli Traffig, beth bynnag a gâi ei benderfynu, fod rhaid i ystyriaeth gael ei rhoi i sicrhau llif traffig rhydd yn Crescent Road bob amser.

Dymunai'r Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth egluro i'r rhai a oedd yn bresennol y byddai unrhyw gyffyrdd â signalau goleuadau traffig a gâi eu gosod yn ardal Crescent Road, Heol Cwrdy, Heol Canola a Bryncoch Road, yn cael eu gosod fel bod y goleuadau coch, melyn a gwyrdd yn goleuo yn eu trefn ac ar wahanol amserau yn y mannau hyn, er mwyn ymdopi â llif traffig diogel yn yr holl leoliadau hyn lle bernid eu bod yn angenrheidiol. Ychwanegodd y byddai'r amseriadau hyn yn cael eu cyfrifo gan Dechnegwyr Ffyrdd, gan ddefnyddio model data arbennig.

Gofynnodd Aelod pryd y câi'r gwaith a gynigiwyd ac y cytunid arno ei gwblhau. Atebodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth bod yna fwriad i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r ddau barti grynhoi eu cyflwyniadau, gan ddechrau â chynrychiolwyr yr Adran Briffyrdd.

Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth y byddai ef yn sicrhau, pe bai Mrs. Randall yn cytuno i gyffordd 4 cangen â signalau gael ei darparu (gan gynnwys system unffordd yn Crescent Road) yn unol ag argymhelliad y Swyddogion, fod croesfan ffurfiol i gerddwyr yn cael ei darparu hefyd fel un o amodau'r gwaith a hynny yn ymyl Rhif 1 Crescent Road, yn unol â chais y gwrthwynebydd.

Cadarnhaodd Mrs. Randall y byddai'n cytuno i dynnu'n ôl y gwrthwynebiadau a/neu'r sylwadau eraill yr oedd wedi'u cyflwyno o'r blaen, ar yr amod y byddai croesfan â goleuadau traffig i gerddwyr yn cael ei darparu yno, er mwyn cynyddu diogelwch cerddwyr yn Crescent Road gymaint â phosibl, fel a gadarnhawyd bellach gan y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth.

Caeodd y Rheolwr Traffig a Thrafnidiaeth y drafodaeth yn y cyfarfod drwy gadarnhau y byddai ef, ar ran yr Awdurdod Priffyrdd, yn sicrhau bod y cais hwn yn cael ei fodloni.

Wedyn ymneilltuodd y Panel i ystyried y mater ymhellach ac ar ôl iddyn nhw ddychwelyd

PENDERFYNWYD: Bod y Panel:-

(1) Yn gwrthod y gwrthwynebiad a gyflwynwyd gan Wrthwynebydd Rhif 2 sef Mrs. L. Randall ynghylch y bwriad i gyflwyno system draffig unffordd ar Crescent Road, rhwng Heol Ganol a Heol Ynysawdre, ac yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn fel y'i ceid yn Atodiad C1 i'r adroddiad, cyhyd ag y câi croesfan i gerddwyr o dan reolaeth botymau i'w pwyso ei darparu mewn cysylltiad â'r goleuadau traffig yn ymyl Rhif 1 Crescent Road, Sarn, fel y cytunwyd yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:05